CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir y cyfarfod ar Zoom
Nos Fawrth, Mai 11, 2021 am 7:30yh o'r gloch.

AGENDA

www.cyngorllanelltyd.cymru

Gweddi

1. Ymddiheuriadau:

2. Dewis Swyddogion

Swyddogion presennol:

Cadeirydd: Simon Evans.
Is Gadeirydd: Carwyn Evans

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams
Neuadd Bentref Bontddu (1): Janet Edwards
Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands a John Hughes.
Un Llais Cymru (2): Elfed ap Gomer, Gareth Ellis

3. Datgan diddordeb:

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ebrill 13, 2021

5. Materion yn codi o'r cyfarfod Ebrill 13, 2021

Eitem 4. Eitem 5.d. Llythyr ateb (22/4/2021) oddi wrth Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod nid ydynt yn gwybod os mae cynghorau yn yswirio'r ciosgau ffôn. Gwnaethpwyd ymoliadau gydag Un Llais Cymru (24/4/2021) ond ddim wedi cael ateb.

Eitem 5.d. Llythyr (22/4/2021) oddi wrth Zurich angen gwybod os rydym am archwilio'r toiledau yn wythnosol fel mae angen.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Rhoddwyd gwybod i Zurich (27/4/2021) bod y Cyngor am gyd-fynd gyda'r anghenion sydd angen eu gwneud.

6. Materion Ariannol

a. Llythyr (17/3/2021) oddi wrth Cymdeithas y Dydd yn diolch am ein rhodd o £50.

b. Llythyr (3/2021) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £100.

c. Llythyr (28/4/2021) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept o £3,750 yn ein cyfrif ar 30/4/2020. Taliad am hanner blwyddyn.

ch. Lythyr (28/4/2021) oddi wrth Tŷ Gobaith. Maent angen cymorth ariannol.

d. Balans yn y banc ar 29/4/2021: £8,593.62. (29/4/2020: £8,681.84).

7. Archwilio

a. Llythyr (21/4/2021) oddi wrth Archwilio Cymru yn amgau ffurflenni templed ar gyfer cysoni'r banc ac am esboniadau o amrywiannau.

b. Rhoddwyd copi o 'Ddatganiad o Daliadau a wnaed i'r Aelodau' ar ein gwefan. Nid oedd taliadau.

c. Anfonwyd copi o'r Adroddiad Cyfrifon 2020 2021 y Cyngor i'r aelodau.

ch. Anfonwyd copi o'r Ffurflen Flynyddol i'r aelodau. Bydd angen i'r Cadeirydd y cyfarfod ei arwyddo.

8. Mynwent Llanelltyd

a. Sydd angen newid costau'r fynwent?

Anfonwyd copi o gostau Cyngor Gwynedd am 2021-2022 a chostau'r Cyngor am 2019/2020 i'r aelodau. Ni chafodd costau'r Cyngor eu newid ers 2017 – 2018.

9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/65/274F. Adeiladu adeilad amaethyddol. Maes Hyfryd, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (30/4/2021).

ii. NP5/65/272A. Adeiladu estyniad cefn, balconi a gosod ffenestri to yn y gweithdy. Llety Wyn, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/5/2021).

b. Llythyr (20/4/2021) yn rhoi gwybod bydd weminar yn gael ei gynnal ar 20/5/2021 am 7.00yh. rhwng y Parc a Chynghorau Cymuned a Thref. Y testun fydd 'Adolygu mesurau rheoli ymwelwyr yn ne'r Parc' gydag ail-agor y Parc wedi'r llwyrgloi.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Llythyr (5/5/2021) yn rhoi manylion pellach a dolenni cofrestru ar gyfer y gweminarau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

10. Gohebiaeth

a. Llythyr (21/4/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Ebrill / Mai.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (21/4/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd bydd ar Ffordd Dosbarth III sy'n arwain at Fferm Pentre. Bydd y ffordd ar gau yn 26/4/2021 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith ar y ffordd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Anfonodd Geraint Rowlands lythyr (22//4/2021) i Peredur Jenkins yn dweud ei fod yn anhapus gyda'r bwriad o gau'r ffordd heb roi gwybod i fusnesau a thrigolion bydd yn cael eu heffeithio gyda'r gwaith. Anfonodd Peredur lythyr i Priffyrdd (23/4/2021) yn cytuno gyda sylwadau Geraint ac anfonwyd hwy'r llythyr ymlaen i Waith Stryd, Caernarfon, yr Adran sy'n delio gyda materion o'r fath. Cafwyd gwybod (26/4/2021) gan yr Adran mae'n ddyletswydd ar BT i roi arwyddion mewn lle o leiaf 10 diwrnod cyn y gwaith ac anfon llythyr i bobl i'w rhybuddio. Bydd yr Adran yn cysylltu gyda BT i roi gwybod o'u dyletswyddau. Anfonodd Peredur lythyr (6/4/2021) i'r Adran yn gofyn am fwy o wybodaeth a chafodd wybod (26/4/2021) mi fydd yn cael copi o'r llythyr sy'n cael ei anfon i BT, copi o'r telerau ac amodau mae rhaid i BT eu dilyn i gau ffordd. Bydd Swyddog o'r Adran yn sicrhau bydd arwyddion yn eu lle.

c. Llythyr (22/4/2021) oddi wrth Gethin Williams. Mae ein llythyr anfonwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru wedi 'r cyfarfod Zoom gyda Antony Griffiths wedi cael ateb (gweler Eitem 2, Eitem 4. Cofnodion Ebrill 11, 2021). Nid ydynt wedi rhoi y wybodaeth gofynwyd ac mae Gethin yn awgrymu ysgrifennu at Mr Rob Williams, Operations Manager, Coed y Brenin am y wybodaeth.

Mae'r contractwyr yn ôl ar y safle (Coed Farchynys, Bontddu neu Coed Geuos fel mae'r goedwig yn cael ei henwi) yn torri coed. Mae Gethin yn awgrymu gofyn am gopi o 'Habitat Regulations Order' sydd ymwneud â'r tymor nythu adar.

ch. Llythyr (29/4/2021) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Goledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod mae gwaith o osod 'ANPR (automatic number plate recognition) camera' yn cael ei wneud ar ochr ffordd A470 yn Llanelltyd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

11. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

12. Materion Brys

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc